Hawdd ei Ddeall

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Democracy and Boundary Commission Cymru

# Beth ydy'r Senedd?

Mawrth 2026


Photosymbols®
Publisher Licence 403527247

# Am y ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: Beth yw'r Senedd?




Efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Bwrdd Rheoli Etholiadol Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:


**Gwefan:** bwrwpleidlais.cymru

**Ebost:** brhe@cdffc.llyw.cymru

**Ffôn:** 02920464819


Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn Hawdd ei Ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols.** I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

# Contents

Beth ydy'r Senedd? ........ 4

Aelodau'r Senedd ........ 6

Y gwahaniaeth rhwng y Senedd a Llywodraeth Cymru ........ 12

# Beth ydy’r Senedd?

Senedd Cymru ydy’r Senedd, mae:



- Yn goruchwylio’r gwaith mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud.



- Yn eich cynrychioli chi a’ch ardal bleidleisio.




Yn 1997 pleidleisiodd pobl yng Nghymru. Roedden nhw eisiau symud pwerau gwneud penderfyniadau o Senedd y DU yn Llundain, i Gymru.




Felly, yn 1999 sefydlwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru.



Erbyn hyn mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael ei alw yn Senedd - neu Senedd Cymru.




Yn 2011 pleidleisiodd pobl i roi mwy o rym i'r Senedd - i wneud ei chyfreithiau ei hun.





Rydych chi'n gallu darganfod mwy am beth mae'r Senedd yn ei wneud yma: **Beth mae'r Senedd yn ei wneud?**

# Aelodau’r Senedd




Mae’r Senedd yn cynnwys Aelodau’r Senedd. ASau yn fyr.




Mae pobl yng Nghymru yn pleidleisio dros ASau yn etholiadau’r Senedd.



Yn 2026 mae nifer yr ASau sydd gennym ni yn mynd i fyny o 60 i 96 AS.



Fe fydd Cymru’n cael ei rhannu’n 16 ardal bleidleisio, sydd yn cael eu galw  yn etholaethau. Mae pob ardal bleidleisio yn dewis 6 AS.




Rydych chi'n gallu darllen mwy am newidiadau i etholiadau'r Senedd yma: **Sut mae'r system bleidleisio yn gweithio**



Swydd AS ydy cynrychioli'r bobl o'u hardal bleidleisio.

Mae ASau yn cyfarfod ym Mae Caerdydd. Maen nhw yn:



- Dadlau a phleidleisio ar gyfreithiau.




- Gosod rhai trethi Cymreig.




- Edrych ar waith Llywodraeth Cymru.



Mae ASau yn gallu siarad am faterion lleol yn y Senedd.



Weithiau maen nhw’n awgrymu eu deddfau newydd eu hunain.



Maen nhw’n cyfarfod yn y Siambr.



Mae’r dadleuon yn cael eu rheoli gan y Llywydd.



Mae ASau yn dewis y Llywydd trwy bleidlais.



Mae'r Llywydd yn AS – eu gwaith ydy rheoli dadleuon.




Rydych chi'n gallu cysylltu â'ch AS a gofyn iddyn nhw fynd â materion i'r Senedd.



Rydych chi'n gallu darganfod sut i gysylltu â'ch AS yma: senedd.cymru/dod-o-hyd-i-aelod-o-r-senedd



Yn eich ardal chi, mae AS  yn gallu ceisio eich helpu gydag unrhyw broblemau rydych chi'n eu hwynebu. Er enghraifft, gyda gwasanaethau meddyg teulu neu ysbyty, ysgolion neu dai.



Mae ASau hefyd yn cymryd rhan mewn digwyddiadau lleol.



Maen nhw'n ceisio cael Llywodraeth Cymru i wneud newidiadau a fyddai'n helpu eu hardal leol.

# Y gwahaniaeth rhwng y Senedd a Llywodraeth Cymru



Mae’r Senedd yn cynnwys ASau rydych chi wedi eu dewis yn etholiadau’r Senedd.



Mae Asau yn dod o wahanol **bleidiau gwleidyddol**.



Mae **plaid wleidyddol** yn grŵp o bobl sy’n rhannu’r un syniadau am sut i redeg y wlad.



Dydy rhai ddim yn perthyn i unrhyw blaid wleidyddol – maen nhw’n cael eu galw yn **Aelodau Annibynnol**.



Mae’n rhaid i wahanol bleidiau gwleidyddol ac ASau weithio gyda’i gilydd i ffurfio Llywodraeth Cymru.



Mae Asau yn pleidleisio dros arweinydd Llywodraeth Cymru. Mae arweinydd Llywodraeth Cymru yn cael ei alw yn **Brif Weinidog**.



Mae’r Prif Weinidog yn gallu dewis 12 gweinidog i oruchwylio pethau fel iechyd, trafnidiaeth ac addysg.



Llywodraeth Cymru sy’n gyfrifol am wasanaethau cyhoeddus ac arian Cymru.




Mae’r Senedd yn edrych ar waith Llywodraeth Cymru.




Rydych chi’n gallu darganfod mwy am y gwahaniaeth rhwng y Senedd a Llywodraeth Cymru yma: **Beth mae’r Senedd yn ei wneud?**